| 12fed CYNHADLEDD GENEDLAETHOL FFORYMAU MYNEDIAD LLEOL YNG NGHYMRU |
|---|

**NODYN CYFARFOD**
**19 Hydref 2016, Hafod a Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair-ym-Muallt, Powys**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol**: | *Gweler rhestr bresenoldeb ar wahân* |
| 1. | **Cyflwyniad a threfn y dydd**<br>John Morgan, Cynrychiolydd Cenedlaethol FfMLl<br><br>Gwnaeth John groesawu pawb i'r gynhadledd a chyflwyno'i hun fel Cynrychiolydd Cenedlaethol FfMLl yng Nghymru a oedd newydd ei benodi a Tim Stratton fel y Dirprwy Gynrychiolydd Cenedlaethol. Gwnaeth nodi bod y gynhadledd yn gyfle i gynrychiolwyr FfMLl rannu gwybodaeth, rhoi barn a gofyn cwestiynau, ac i'r sefydliadau a gynrychiolir, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, glywed gan y FfMLl.<br><br>Roedd John yn falch o groesawu Jean Rosenfeld, Dirprwy Gadeirydd FfMLl Sir y Fflint a'r Cynrychiolydd Cenedlaethol blaenorol. Diolchodd i Jean am ei holl gyfraniadau fel y Cynrychiolydd Cenedlaethol blaenorol ac roedd yn falch ei fod yn gallu bod yn bresennol. |
| 2. | **Diweddariad gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â mynediad a Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru:** John Watkins, Tirwedd a Hamdden Awyr Agored, Llywodraeth Cymru (LlC)<br><br>Cafodd Ysgrifennydd y Cabinet wahoddiad i annerch y gynhadledd ond nid oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd dyletswyddau gweinidogol. Roedd John Morgan yn falch iawn bod John Watkins, a oedd yn gyfrifol am feysydd gwaith LlC oedd fwyaf perthnasol i FfMLl o ran mynediad, yn gallu mynychu'r gynhadledd yn ei lle. Mae cylch gwaith John Watkin yn cynnwys achosion hawliau tramwy cyhoeddus yn yr Uchel Lys, Llwybr Arfordir Cymru, ac ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ynghyd â bod yn gyfrifol am leoedd gwyrdd hamdden eraill, yn cynnwys rhandiroedd a Gwobrau'r Faner Werdd.<br><br>Diolchodd John Watkins i John Morgan am y cyfle i annerch y gynhadledd.  Ers y gynhadledd ddiwethaf, pan roddodd Sarah Smith ddiweddariad o waith LlC, bu nifer o newidiadau nodedig a fyddai'n effeithio ar ddyfodol Cymru:<br><br>- Etholiad y Cynulliad a sefydlu Carwyn Jones yn Brif Weinidog llywodraeth Lafur leiafrifol. |

| | |
|---|---|
| | - Cyhoeddi Bil Cymru newydd yn ystyried yr ardrefniant datganoli newydd ar gyfer Cymru, a oedd yn cael ei ddatblygu trwy Senedd San Steffan<br>- Penderfyniad etholwyr y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd<br><br>Y llynedd, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynghylch 'Gwella'r cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol'. Roedd y ddogfen ymgynghori'n crynhoi'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod adolygiad blaenorol ynglŷn â deddfwriaeth mynediad ac annog trafodaeth ar raddfa symudol o ddewisiadau posibl, gan gynnwys gwneud gwelliannau i'r gwaith o weinyddu deddfwriaeth mynediad bresennol; cael gwared â rhai o'r cyfyngiadau i'r mathau o weithgareddau hamdden y gall pobl eu gwneud a ble; a setliad mynediad cwbl newydd sy'n caniatáu llawer mwy o ddefnydd o dir ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol.<br><br>Nododd fod tua 5,800 o ymatebion wedi dod i law ar gyfer yr ymgynghoriad, gyda nifer sylweddol ohonynt wedi'u cyflwyno o ganlyniad i ymgyrchoedd gan y Clwb Teithio Beicwyr (a phobl eraill oedd â diddordeb mewn beicio), grwpiau paragleidio, y Gynghrair Cefn Gwlad, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru. Gwnaeth ymatebion yr ymgynghoriad roi ychydig o ddatgeliadau a chadarnhau'r safbwyntiau a gyflwynwyd trwy'r adolygiad.<br><br>Roedd pob ymateb o blaid rhywfaint o ddiwygio'r system gyfredol, ond roedd y rhesymau a'r cymhellion ar gyfer diwygio yn wahanol. Er bod y cymhellion ar gyfer diwygio'n gallu bod yn wahanol, gwnaeth yr ymgynghoriad ddatgelu fod consensws fod y system bresennol yn cael ei hystyried wedi dyddio, yn ddi-drefn, yn feichus i'w gweinyddu, ac yn aml yn anodd i'r cyhoedd ei deall.<br><br>Un canlyniad annisgwyl oedd yr ymateb sylweddol gan bobl oedd â diddordeb mewn beicio. Roedd bron i 71% o'r ymatebion yn ceisio sicrhau mwy o gyfleoedd i feicwyr a defnyddwyr eraill fwynhau cyfleoedd i ffwrdd oddi wrth y rhwydwaith ffyrdd arferol.<br><br>Ar ôl symud i bumed tymor y Cynulliad, mae LlC yn parhau'n ymroddedig i wella cyfleoedd ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r awyr agored. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn penderfynu pa newidiadau, os o gwbl, sy'n ofynnol i'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynediad, a hynny'n seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a thystiolaeth arall a gasglwyd. Gwnaeth ymrwymiad yn y Cyfarfod Llawn i wneud datganiad ar hyn yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.<br><br>O wneud y penderfyniad hwn, bydd yn ystyried anghenion defnyddwyr mynediad, rheolwyr tir a'n hamgylchedd naturiol ar gyfer y presennol a'r dyfodol, a pha ddull gweithredu sydd gorau i Gymru. Fodd bynnag, gyda'r penderfyniad i adael Ewrop a gwneud cynnydd |

| | |
|---|---|
| | ar Fil Cymru, nododd John Watkins mai ychydig o amser deddfwriaethol fydd ar gael yn ystod y tymor Cynulliad hwn.<br><br>Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden awyr agored eisoes yn cyfrannu at nifer o'r blaenoriaethau a nodir yn Rhaglen Lywodraethu newydd LlC – Symud Cymru Ymlaen yn ymwneud ag iechyd, yr amgylchedd a'r economi.<br>http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf<br><br>Bydd hwyluso mwy o fynediad i'r awyr agored yn nes at gartrefi pobl, ac i ystod ehangach o weithgareddau, yn gwella'r cyfraniad hwn ac yn helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau gwell mynediad i gyfleoedd teithio llesol a chymdeithas decach.<br><br>Gyda hyn mewn golwg, rydym yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u cynlluniau gwella hawliau tramwy. Rydym wedi ailgyhoeddi'r canllawiau i awdurdodau lleol yn ymwneud â datblygu eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd yn seiliedig ar gyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Roedd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2016/17 wedi'i chyhoeddi ar 18 Hydref ac roedd hon yn gyllideb 12 mis. Er nad oedd yn gallu rhoi cadarnhad, roedd John Watkins yn ffyddiog y byddent yn gallu helpu i ariannu gweithredu'r cynlluniau am flwyddyn arall.<br><br>Roedd LlC wrthi'n casglu tystiolaeth ynglŷn â'r costau i awdurdodau lleol ac eraill er mwyn gweinyddu'r system ddeddfwriaethol bresennol. Disgwylir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn gynnar y flwyddyn nesaf.<br><br>Mae LlC bellach yn ariannu Gwobrau'r Faner Werdd o ganlyniad i grant craidd Cadw Cymru'n Daclus. Mae Gwobr y Faner Werdd yn cydnabod ac yn gwobrwyo'r parciau a'm mannau gwyrdd gorau yn y wlad ac yn helpu i wella ansawdd a safonau.<br><br>Roedd y gwaith cysylltiedig arall, a oedd yn berthnasol i fynediad, yn waith a oedd yn cael ei wneud trwy ymgynghoriad ar ansawdd lleol yr awyr a rheoli sŵn yng Nghymru, ac ymroddiad i gael coridorau gwyrdd a allai hefyd ddarparu mannau tawel a mannau gwyrdd trefol ar gyfer traffig di-fodur ac a fyddai'n cyd-fynd â Theithio Llesol.<br><br>Er bod LlC yn parhau i ystyried sut y gellid gwella'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynediad, nododd John y byddant hefyd yn diweddaru'r canllawiau ar y system bresennol. Roedd Canllawiau Hawliau Tramwy LlC i Awdurdodau Lleol newydd gael eu cyhoeddi, ac mae'r canllawiau cynhwysfawr hyn yn disodli llawer o'r hen gylchlythyrau: |

| | |
|---|---|
| | http://gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/rights-of-way-and-wider-access/rights-of-way/?skip=1&lang=cy<br><br>O ran rôl a swyddogaethau Fforymau Mynediad Lleol, a lle mae FfMLl yn teimlo eu bod yn mynd ar y cyd ac yn unigol, cafodd cwestiynau eu gofyn yn ystod ymgynghoriad y Papur Gwyrdd. Mae llawer y gellid ei wneud heb ddeddfwriaeth sylfaenol i ddiweddaru swyddogaeth ac aelodaeth y fforymau. Roedd Fforymau Mynediad Lleol eisoes wedi darparu papur manwl ar rai o'r newidiadau y gellid eu gwneud, ond byddai LlC yn falch o dderbyn unrhyw gyngor pellach sydd gan Fforymau Mynediad Lleol. Byddai hyn yn helpu LlC a CNC i edrych ar sut y gellid diweddaru'r canllawiau ac a oes angen newid y rheoliadau.<br><br>Nododd John fod y cyd-destun gweithio wedi newid i Fforymau Mynediad Lleol (Datganiadau Ardal, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac ati).Nod Llywodraeth Cymru yw lleihau'r baich ar awdurdodau lleol a thirfeddianwyr wrth wella darpariaeth cyfleoedd o ansawdd i fynd i'r awyr agored. Ein nod hefyd yw sicrhau bod mynd i'r awyr agored yn fwy cynrychioliadol ac yn fwy hygyrch beth bynnag fo modd a gallu pobl.<br><br>**Pynciau Trafod:**<br><br>• Pryder nad oedd unrhyw wybodaeth yn y Canllawiau i Fforymau Mynediad Lleol blaenorol am weithdrefnau cwynion<br><br>• Gwelliannau i feysydd Coedwigaeth LlC; roedd rhai pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r Papur Gwyrdd yn awgrymu y dylai'r tir mynediad gynnwys coetir. Mae CNC yn rheoli Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ar ran LlC, ond mae'n ddarlun cymhleth o wahanol brydlesi a chytundebau. Mae LlC yn gweithio i sicrhau bod CNC yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel rheolwyr tir. Mae mynediad caniataol yn fwy o rodd gan CNC, eu rheolaeth a'u blaenoriaethau ar eu hystad eu hunain, megis Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.<br><br>• Roedd CNC yn dechrau ystyried ffyrdd o wella hygyrchedd ymhellach, ond yr angen allweddol oedd sicrhau bod y gweithrediadau'n cael eu cynnal mewn modd diogel. Mae CNC yn gweithio i sicrhau bod y wybodaeth am gyfyngiadau tir mynediad yn fwy hygyrch, gan nad ydynt yn fodlon ar y ddarpariaeth bresennol. Roedd staff TG yn gweithio ar ddatrysiad sy'n seiliedig ar fap ond nid oes amserlen ar gyfer cwblhau eto.<br><br>• Pryder am CNC yn gwrthod ymgynghori ar y newidiadau o ganlyniad i ddatblygu ffermydd gwynt. Nododd Jont Bulbeck mai'r datblygwr sy'n gyfrifol ar y cyfan am safleoedd o'r fath. |

| | |
|---|---|
| | Manylion yr achos i'w trosglwyddo i Jont Bulbeck i fynd ar drywydd y pryder.<br><br>• Mae'n bwysig trin y seilwaith ar gyfer mynediad fel un endid a pheidio â'i rannu, trwy ei reoli am wahanol resymau a gwahanol rannau o LlC, e.e. rhwng Teithio Llesol a Thirwedd a Hamdden Awyr Agored. Roedd Prif Weinidog LlC wedi canolbwyntio ar yr angen i fod yn fwy cydgysylltiedig ac ar sut mae gwahanol agendâu yn ategu ei gilydd, ac roedd Gweinidogion a swyddogion yn gweithio'n agos.<br><br>• Roedd iechyd yn faes y gallai mynediad a hamdden gyfrannu ato. Mae pobl yn cydnabod y manteision yn y tymor byr ond mae diffyg cysylltiad rhwng y manteision sydd i'w cael yn y dyfodol o'i gymharu â'r pwysau ar hyn o bryd. Awgrymwyd bod diffyg o systemau ar gyfer annog pobl i fynd allan er lles eu hiechyd.<br><br>• Mae angen i Fforymau Mynediad Lleol fod yn ymwybodol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'u sail resymegol i ganfod ble mae angen gwneud cysylltiadau.<br><br>• O ran y gwaith o asesu cost gweinyddu'r broses gyfreithiol bresennol ar gyfer hawliau tramwy, dylai'r asesiad o gostau gynnwys yr amser a gymerodd yr unigolion i gasglu tystiolaeth i gefnogi ceisiadau, ac nid yn unig yr amser a gymerodd yr awdurdod lleol i brosesu'r gorchymyn.<br><br>• Roedd tri sefydliad etifeddol CNC, gyda thri chylch gwaith gwahanol ar gyfer mynediad a hamdden, yn gyffrous. Mae gan CNC bob math o gyfleoedd hamdden a mynediad. Mae gwaith yn mynd rhagddo ac mae'n dechrau dod at ei gilydd o ran edrych ar ddarpariaeth mynediad ar gyfer y dyfodol i CNC. Roedd LlC yn gwrthsefyll yr egwyddor o godi tâl am fynediad o ystyried yr angen am gyfiawnder cymdeithasol. |
| 3. | **Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru – Ffeithiau Allweddol ar gyfer Polisïau ac Arferion** Jont Bulbeck, Arweinydd Tîm Mynediad, CNC<br><br>Darparodd Jont drosolwg o Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, sy'n cael ei arwain gan Susan Williams. Mae'r canlyniadau'n cynrychioli'r boblogaeth gyfan, yn ogystal â phob ymweliad gan oedolion sy'n byw yng Nghymru, ond nid ydynt yn cyfrif ymwelwyr sy'n dod i Gymru. Rhannwyd nifer o ffeithiau allweddol, ac mae'r adroddiadau llawn a rhagor o wybodaeth am yr arolwg ar gael ar wefan CNC: https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/welsh-outdoor-recreation-survey/?lang=cy |

| | |
|---|---|
| | Mae adroddiadau mwy manwl wedi'u seilio ar yr arolwg diweddaraf wrthi'n cael eu datblygu o ran cyfranogiad, budd economaidd, iechyd, ac agweddau tuag at fioamrywiaeth.<br><br>**Pynciau trafod:**<br><br>• Mae manteision hamdden er lles meddyliol yn bwysig, ond nid yw'n ymddangos bod hynny wedi'i nodi yng nghanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ac mae fel pe bai'n canolbwyntio ar iechyd corfforol.<br><br>• Mae'r arolwg yn edrych ar hamdden awyr agored, ond heb ddadansoddi cyfranogiad hamdden dan do hefyd, mae'n anodd gwybod a yw pobl yn fwy egnïol neu'n llai egnïol. Nid yw chwaraeon wedi'u trefnu wedi'u cynnwys yn yr arolwg presennol ychwaith. Yn y dyfodol, byddai Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru yn cael ei ymgorffori yn Arolwg Cymru gyfan.<br><br>• Mae'n bwysig annog pobl i wneud eu gweithgarwch bob dydd, e.e. siopa, mewn ffyrdd mwy egnïol.<br><br>• Nodwyd bod methodoleg yr arolwg hwn yn golygu y ffoniwyd pobl ar eu llinell tir, ac y gallai hyn fod wedi effeithio ar y math o bobl oedd yn cael eu cysylltu i gymryd rhan yn yr arolwg. Yn y dyfodol, Arolwg Cartrefi Cymru fydd yn gyfrifol am roi sylw i broblemau methodoleg o'r fath. |
| 4. | **Barn Ffermwyr ar Hawliau Mynediad Cyhoeddus i Gefn Gwlad**<br>Rachel Lewis-Davies, Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru<br><br>Nododd Rachel y cefndir i'r NFU, ynghyd â phwysigrwydd ffermio a gwaith y sefydliad i annog cefnogaeth ar gyfer bwyd a ffermio. Esboniodd fod dwy brif broblem yr oedd hi wedi'u clywed gan aelodau ynglŷn â mynediad:<br>- Rhaid i'r mynediad fod yn ddiogel – gan nodi bod canfyddiad y cyhoedd o berygl yn amrywio<br>- Rhaid i'r mynediad fod yn gyfrifol<br><br>Mae gan Fforymau Mynediad Lleol rôl ganolog i helpu i hwyluso'r gwaith rhwng y bobl dan sylw sy'n ymwneud â mynediad a cheisio dod o hyd i dir canol, ac i wneud cynnydd a chael y budd gorau.<br><br>**Pynciau trafod:**<br><br>• Pryder nad yw undebau amaethyddol yn addysgu eu haelodau am eu cyfrifoldebau ar gyfer hawliau tramwy; mae tirfeddianwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw camfeydd a gatiau, ac am sicrhau nad ydynt yn rhwystro llwybrau. |

| | |
|---|---|
| | • Er bod Rachel wedi dweud na fyddai'n amddiffyn arferion gwael, gwnaeth gydnabod mai cyfrifoldeb yr NFU yw hysbysu aelodau. Ond gofynnodd sut y gallai Fforymau Mynediad Lleol helpu i ymgysylltu'n effeithiol â nifer o ffermwyr unigol sy'n gweithio mewn fframwaith rheoleiddio cymhleth.<br><br>• O ran sut i annog cynrychiolaeth tirfeddianwyr, mae rhai Fforymau Mynediad Lleol yn cael trafferth gyda hyn. Gwnaeth Rachel yn annog Fforymau Mynediad Lleol i feddwl am natur eu cyfarfodydd a phwysleisiodd y byddai ffermwyr sy'n brysur yn amharod i fuddsoddi amser lle byddai natur y cyfarfod yn anadeiladol o ran gwneud cynnydd. Cafwyd enghreifftiau da o Fforymau Mynediad Lleol lle'r oedd llawer o dir cyffredin a chyfraniadau cadarnhaol.<br><br>• Er bod aelodau Fforwm Mynediad Lleol yn unigolion ac nad ydynt yno i gynrychioli sefydliadau penodol, anogir aelodau i adrodd yn ôl i'w rhwydweithiau, gan gynnwys sefydliadau sydd â diddordeb.<br><br>• Mynegwyd barn am bwysigrwydd cadw Fforymau Mynediad Lleol yn 'lleol'. |
| 5. | **Diogelwch Ceffylau a'r ymgyrch 'Dead Slow'**<br>Jan Roche, Cymdeithas Ceffylau Prydain<br><br>Cyflwynodd Jan Roche ymgyrch diogelwch ar y ffyrdd Cymdeithas Ceffylau Prydain a oedd â'r nod o leihau marwolaethau ac anafiadau difrifol o ganlyniad i ymddygiad anniogel gyrwyr cerbydau ar ffyrdd. Mae'r ymgyrch yn ceisio codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y dylai gyrwyr ymddwyn pan fyddant yn dod ar draws ceffylau ar ffyrdd.<br>Rhannodd Jan ystadegau system adrodd damweiniau Cymdeithas Ceffylau Prydain a lluniau o un digwyddiad peryglus.<br><br>Mae'r ymgyrch 'Dead Slow' yn cael ei rhannu gan staff Cymdeithas Ceffylau Prydain ac mae ar gael ar YouTube:<br>https://www.youtube.com/watch?v=x_0FO7eECQo<br><br>Anogwyd Fforymau Mynediad Lleol i helpu i hysbysebu'r ymgyrch.<br><br>**Pynciau trafod:**<br>• Mae marchogwyr yn gwisgo dillad gweladwy uchel ac yn annog beicwyr i wneud yr un peth er mwyn helpu i wella eu gwelededd.<br><br>• Gall Fforymau Mynediad Lleol helpu drwy gadw mewn cysylltiad â chynrychiolwyr Cymdeithas Ceffylau Prydain lleol.<br><br>• Mae torri cyllideb awdurdodau lleol yn arwain at lai o waith cynnal a chadw a thorri ymylon, sy'n darparu mannau clustogi diogel a |

| | |
|---|---|
| | mannau pasio i geffylau. Mae rhai awdurdodau'n blocio ymylon ffyrdd hefyd trwy osod pob arwydd ffordd arnynt.<br><br>• Dylai Fforymau Mynediad Lleol helpu i sicrhau nad yw'r gwelliannau Teithio Llesol yn cael effaith negyddol ar farchogaeth ceffylau. |
| | **Cinio** |
| 6. | **Sesiwn agored: Hybu dyfodol i hawliau mynediad cyhoeddus yng Nghymru**<br><br>Ynghyd â'r pwyntiau a oedd wedi'u cynnwys yng nghyflwyniad yr NFU, rhoddodd pedwar sefydliad arall gyflwyniad yn hybu eu barn ar sut y dylai mynediad gael ei ddatblygu yng Nghymru, wedi'i seilio ar eu hymatebion i ymgynghoriad Papur Gwyrdd LlC.<br><br>**Rhoddwyd cyflwyniadau gan:**<br>NFU Cymru: Rachel Lewis Davies, Swyddog Amgylchedd a Materion Gwledig<br>Y Cerddwyr: Angela Charlton, Cyfarwyddwr Cymru<br>Cymdeithas Ceffylau Prydain: Mark Weston, Cyfarwyddwr Mynediad<br>Cycling UK: Kieron Foster, Ymgynghorydd Oddi-ar-y-ffordd Cenedlaethol<br>LARA: Andrew Knightly Brown, Cadeirydd<br><br>Gweler sleidiau cyflwyniad ar wahân am ragor o fanylion.<br><br>**Pynciau trafod:**<br><br>• Trafodaeth am effaith y peiriant mewndanio ar fwynhad pobl eraill o ardaloedd tawel.<br><br>• P'un a ddylai LlC weithredu Adran 53 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, sy'n cyflwyno darpariaethau ar gyfer diddymu rhai hawliau nad ydynt wedi'u cofnodi ar ôl 2026.<br><br>• Tasg amhosibl i awdurdodau wneud cynnydd tra bod eu cyllid craidd yn cael ei dorri. Mae angen cyllid gan Lywodraeth Cymru, a heb hynny, bydd y manteision a'r incwm i Gymru oddi wrth y rhwydwaith mynediad yn cael ei golli.<br><br>• Ni fydd y cyllid hwnnw i'r system bresennol yn darparu'r ateb. Mae angen ymdrin â'r broblem a symleiddio'r system fel ei bod yn gweithio'n well er lles pawb.<br><br>• Roedd effaith economaidd cau'r hawliau tramwy o ganlyniad i glwy'r traed a'r genau yn ddinistriol. Roedd pryder y byddai effaith economaidd o'r un raddfa yn digwydd os na fyddai'r rhwydwaith o lwybrau'n cael ei ariannu. |

| | |
|---|---|
| | • Gwahanol safbwyntiau ynglŷn â'r angen i flaenoriaethu a rhesymoli'r rhwydwaith hawliau tramwy, e.e. a ddylid diddymu llwybrau os ydynt yn dyblygu neu os nad ydynt yn ymddangos yn ddefnyddiol, neu'n syml peidio â'u cynnal a'u cadw fel bod modd eu defnyddio yn y dyfodol. Cafwyd awgrym y gallai Fforymau Mynediad Lleol fod yn allweddol wrth helpu awdurdodau i gysoni'r rhwydwaith.<br><br>• Gall Fforymau Mynediad Lleol helpu awdurdodau yn eu gwaith, ac roedd cymorth gwirfoddol hefyd yn bwysig. Gwnaeth Y Cerddwyr wahodd Fforymau Mynediad Lleol i gefnogi eu hawdurdod i fanteisio ar gymorth gwirfoddolwyr, megis y rhai a gefnogir gan gynllun Y Cerddwyr.<br><br>• Cwestiynu p'un a ellid gwneud llwybrau troed sy'n addas yn llwybrau amlddefnydd heb lawer o anhawster, neu p'un a fyddai hyn yn achosi problemau'n ymarferol. |
| 7. | **Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru: y presennol a'r dyfodol – swyddogaeth a strwythur** John Morgan, Cynrychiolydd Cenedlaethol Fforymau Mynediad Lleol<br><br>Gwnaeth John Morgan osod y cefndir i'r Fforymau Mynediad Lleol fel cyrff statudol a sefydlwyd dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac yn amodol ar Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Cymru) 2001 (Fforwm Mynediad Lleol).Cyhoeddwyd canllawiau anstatudol pellach pan sefydlwyd Fforymau Mynediad Lleol yn gyntaf gan yr hyn a alwyd bryd hynny'n Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ac roedd hynny ar adeg pan nad oedd unrhyw brofiad o sut roedd Fforymau Mynediad Lleol yn gweithio.<br><br>Wrth ystyried y cwestiwn 'Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru – ydyn nhw'n llwyddiannus?'<br>Roedd rhai meysydd gwaith wedi'u gwneud:<br>• Ymateb i Bapur Gwyrdd LlC<br>• Adrodd ar yr holiadur ynghylch Arferion Gwaith FfMLl<br>• Papur wedi'i gyflwyno ar ran Cadeiryddion FfMLl Cymru<br><br>Awgrymodd John fod modd datrys nifer o'r problemau a fynegwyd gan FfMLl a'r awdurdod penodi heb newid rheoliadau Llywodraeth Cymru, ond mewn rhai achosion byddai angen rhoi sylw i'r olaf. Er bod meysydd lle gellid estyn swyddogaeth Fforymau Mynediad Lleol i fod yn ddefnyddiol, roedd yn teimlo bod hynny'n afrealistig oni bai bod y problemau a fynegwyd yn cael eu datrys. |

| | |
|---|---|
| | Gwnaeth John archwilio rhai o'r **prif ddylanwadau ar lwyddiant** Fforwm:<br>• Cadeirydd<br>• Ysgrifennydd ac ysgrifenyddiaeth<br>• Aelodau'r fforwm<br>• Perthynas â chyrff y maent i fod i roi cyngor iddynt<br><br>**Ehangu swyddogaeth Fforymau Mynediad Lleol**<br><br>• Os bydd swyddogaeth Fforymau Mynediad Lleol yn cael ei hehangu, dylai fod er lles y cyhoedd, a dylid ymdrin â'r materion a godwyd eisoes cyn ehangu'r swyddogaeth.<br><br>• Roedd lle i edrych ar wella cysylltiadau gyda chynghorau cymuned.<br><br>• Cynyddu swyddogaethau Fforymau Mynediad Lleol wrth fonitro darpariaeth a llwyddiant Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.<br><br>**Rheoleiddio Cadeiryddion Cyfarfodydd Fforymau Mynediad Lleol:**<br>Mae'r cyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol yn bwysig, a hebddo byddai Fforymau Mynediad Lleol yn fwy arunig. Mae'r cyfarfod yn caniatáu trafod materion a meincnodi, ac mae presenoldeb CNC a LlC yn golygu y gall y sefydliadau hyn glywed gan Fforymau Mynediad Lleol. Awgrymodd John y dylid gwneud y cyfarfod hwn yn statudol, er mwyn sicrhau ei bodolaeth barhaus, ac i gynyddu ei werth a'i statws. Awgrymodd y dylid ailenwi'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol er mwyn sicrhau na fydd yn cael ei gymysgu â Fforymau Mynediad Lleol gan ei fod yn fforwm anstatudol.<br><br>**Pynciau trafod:**<br><br>• Roedd cytundeb bod angen adolygu swyddogaeth Fforymau Mynediad Lleol. Roedd FfMLl eisoes yn cymryd golwg ehangach ar eu cylch gwaith ac roeddent yn ystyried Teithio Llesol, er enghraifft.<br><br>• Roedd sefydliadau eraill yn bwysig, e.e. yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.<br><br>• Roedd yn bwysig i gadeiryddion fynd i gyfarfodydd FfMLl cyfagos i arsylwi a rhannu profiadau.<br><br>• Awgrymwyd y dylai cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol ddatblygu meincnodi gyda chymeradwyaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |

| | |
|---|---|
| | • Dylai rheoliadau gynnwys gweithdrefn gwyno lle nad yw sefydliadau'n ymgynghori.<br><br>• Mae gan bob Fforwm Mynediad Lleol gyswllt CNC sy'n mynychu neu'n gweithredu fel cyswllt. O ystyried cylch gwaith eang CNC, mae'n bosib na fyddai gan y person hwn wybodaeth uniongyrchol am y mater, ond dylent allu mynd ar drywydd y mater gyda chydweithwyr perthnasol. |
| 8. | **Arfarniadau a dod â'r gynhadledd i ben** |
| | |
| | **Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>Cyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol – 8 Rhagfyr 2016, Hafod a Hendre |